

I: Rhieni/Gwarcheidwaid

**Gofynnwch am:**  
**Please Ask For:** Gaynor Davies

**Rhif Ffôn:**  
**Telephone N<sup>o</sup>:** 01443 744001

**Ffacs:**  
**Fax:**

**E-bost:**  
**E-mail:**

**Cylchlythyr:**  
**Circular:**

Fy Nghyf: GD  
My Ref:

Eich Cyf:  
Your Ref:

Dyddiad: 4.1.21  
Date:

## Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn dilyn fy llythyr ar 31 Rhagfyr 2020 a chyhoeddiad Kirsty Williams heddiw, dyma gadarnhau'r newidiadau pellach sydd wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion ledled Cymru, ac ar lefel leol yma yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r trefniadau diwygiedig wedi'u seilio ar y cyngor meddygol diweddaraf a bwriad y trefniadau diwygiedig yw cadw'n plant a'n staff yn ddiogel, maen nhw wedi'u crynhoi isod:

- Bydd ysgolion yn parhau i ddefnyddio 5 Ionawr i gynllunio fel bod modd i ysgolion baratoi ar gyfer y ddarpariaeth dysgu o bell a'r ddarpariaeth ar y safle ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i arweinwyr ysgolion ddiweddarau'r asesiadau risg a'u cynlluniau i gadw dysgwyr a staff yn ddiogel. Fydd dim darpariaeth dysgu o bell yn cael ei chynnig i'ch plentyn/plant ar 4 a 5 Ionawr.

**Tŷ Trevithick**  
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ  
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000  
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

### Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

- Rhaid i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion, ddarparu cyfleoedd dysgu o bell a chymorth llesiant i'r holl ddysgwyr rhwng 6 a 15 Ionawr. Bydd addysg wyneb yn wyneb yn cael ei darparu ar safleoedd ysgol i **ddysgwyr sy'n agored i niwed â blaenoriaeth uchel a phlant gweithwyr hanfodol cymwys.**
- Rhaid i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion, gynnig **darpariaeth yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed â blaenoriaeth uchel yn ystod oriau craidd yr ysgol rhwng 6 a 15 Ionawr.** Mae plant cymwys yn cynnwys plant sy'n agored i niwed â blaenoriaeth uchel:
  - sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
  - sy'n derbyn gofal;
  - sy'n gynhalwyr ifainc;
  - y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw; neu
  - sydd ag anghenion amddiffyn plant.

Dylai fod eich ysgol eisoes wedi rhoi gwybod i chi os yw eich plentyn wedi'i nodi'n blentyn â blaenoriaeth uchel er mwyn cael mynediad i addysg yn ystod y cyfnod yma.

- Rhaid i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion hefyd gynnig **darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol yn yr ysgol rhwng 6 a 15 Ionawr.** Bydd y ddarpariaeth yma'n cael ei chynnig yn ystod oriau craidd yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth clwb brechwast mewn ysgolion cynradd.

Bydd darpariaeth i weithwyr hanfodol ar gael ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng 6 a 15 Ionawr gan na fydd ysgolion ar agor i bob grŵp blwyddyn.

Mae gweithwyr hanfodol cymwys yn cynnwys:

- Gweithwyr y Gwasanaethau Brys, gan gynnwys y GIG, yr Heddlu, staff y Gwasanaeth Ambiwlans a'r Gwasanaeth Tân;
- Gweithwyr gofal cymdeithasol (gan gynnwys cartrefi gofal); a
- Staff gofal plant neu addysg.

Bydd y ddarpariaeth yma ar gael i blant cymwys o bob oedran mewn ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd, bydd y ddarpariaeth yma ond ar gael i ddysgwyr prif ffrwd ym mlwyddyn 7 ac 8, ac i blant gweithwyr hanfodol sy'n mynychu dosbarthiadau cynnal dysgu cyfnod allweddol 3 a 4.

**Dylech chi ond wneud cais am y ddarpariaeth yma os ydych chi'n bodloni'r meini prawf ac mae disgwyl i chi weithio a does dim opsiynau eraill gyda chi o ran gofal plant.** Gofynnwyd i ysgolion roi gwybod yn uniongyrchol i rieni/gwarcheidwaid am eu darpariaeth i weithwyr hanfodol (wythnos 1) ar 4 Ionawr 2021 ac i wneud trefniadau addas o 6 Ionawr ymlaen.

Bydd trefniadau ar gyfer wythnos 2 y ddarpariaeth yn cael eu rhannu â theuluoedd ar 5 Ionawr, a bydd ysgolion yn cadarnhau manylion y lleoliadau ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 11 Ionawr gyda'r teuluoedd erbyn 6 Ionawr.

- Os nad oeddech chi'n llwyddiannus yn eich cais ar gyfer **darpariaeth clwb brecwast** ar gyfer tymor y gwanwyn, cysylltwch ag ysgol eich plentyn i ofyn a oes lle ar gyfer y cyfnod rhwng 6 a 15 Ionawr. Nodwch: bydd y clwb brecwast ond ar gael ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed â blaenoriaeth uchel a phlant gweithwyr hanfodol cymwys yn ystod y cyfnod yma. Cysylltwch â'ch ysgol os ydych chi'n dymuno trafod y mater yma. Nodwch hefyd y bydd y ddarpariaeth clwb brecwast yma ond ar gael am gyfnod penodol.

Bydd diweddariad pellach yn cael ei rannu â chi yn nes ymlaen yr wythnos nesaf ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r cynlluniau ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Ionawr.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus wrth sicrhau bod eich plentyn yn parhau i fanteisio ar ddarpariaeth dysgu o bell yn y cartref. Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y pandemig yn parhau i osod disgwyliadau heb eu tebyg ar bawb, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eich cyfraniad chi wrth sicrhau parhad o ran dysgu eich plentyn.

Diolch yn fawr a dymuniadau gorau i chi,

*Gaynor Davies*

Gaynor Davies  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant